# Y Grŵp Trawsbleidiol ar Bobl Hŷn a Heneiddio

## Dydd Mawrth 7 Mehefin 2022, 12.15 - 13.00pm

## Cyfarfod ar-lein

## Cofnodion y cyfarfod

**Yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Mike Hedges AS (Cadeirydd) | Andrea Cooper, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru; |
| Jane Hutt AS, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol | Ceri Cryer, Age Cymru |
| Jack Sargeant AS | Dr Bernadette Fuge, Llywydd Age Cymru |
| Ryland Doyle, swyddfa Mike Hedges AS | Heather Ferguson, Age Cymru |
| Ioan Bellin, swyddfa Rhys Ab Owen AS | Steve Milsom, Cynghrair Pobl Hŷn Cymru |
| Alex Hughes-Howells, swyddfa Dr Altaf Hussain | Michael Phillips, Age Cymru |
| Paul Webb, Llywodraeth Cymru | |

**Ymddiheuriadau**

| | |
|---|---|
| Peredur Owen Griffiths AS | Charles Carter, Ymddiriedolwr Age Cymru |
| Rachel Dawson, Age Cymru | |

Mae Lynda Wallis, a fu'n aelod hirsefydlog o'r Grŵp Trawsbleidiol, wedi rhoi'r gorau i gynrychioli Senedd Pobl Hŷn Cymru.

Croesawodd Mike Hedges AS bawb i'r cyfarfod.

**Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol**

Yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon

Cymeradwywyd Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Grŵp Trawsbleidiol ar Bobl Hŷn a Heneiddio (2021-22).

Ethol Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Bobl Hŷn a Heneiddio

Etholwyd Mike Hedges AS yn Gadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Bobl Hŷn a Heneiddio, a enwebwyd gan Jack Sargeant AS.

Enwebu Ysgrifenyddiaeth y Grŵp Trawsbleidiol ar Bobl Hŷn a Heneiddio Cytunodd Ceri Cryer o Age Cymru i ddarparu'r Ysgrifenyddiaeth ar gyfer y Grŵp Trawsbleidiol ar Bobl Hŷn a Heneiddio.

**Y Grŵp Trawsbleidiol ar Bobl Hŷn a Heneiddio**

Cofnodion y cyfarfod diwethaf

Cymeradwywyd y cofnodion ar gyfer y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Ebrill 2022.

Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol - Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, Jane Hutt AS

Diolch am y cyfle i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am ein Strategaeth Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol newydd ar gyfer 2022 i 2026.

Mae'n strategaeth uchelgeisiol, sy'n adeiladu ar ymyriadau llwyddiannus rydym am barhau â hwy ond sydd hefyd yn diffinio blaenoriaethau a dulliau newydd o ehangu a chanolbwyntio ar sut rydym yn mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol fel system gyfan.

Mae'n strategaeth sy'n cynnwys ymrwymiad i fynd i'r afael â ffactorau sy'n achosi'r broblem yn ogystal ag effeithiau, a fydd yn dibynnu ar gydweithio a gweithio mewn ffordd ataliol i fynd i'r afael â'r ffactorau craidd sy'n ei hachosi.

Mae'r strategaeth hon yn seiliedig ar bartneriaeth gryfach. Mae cryn dipyn o ymrwymiad rhwng partneriaid allweddol, yn statudol, yn y sector arbenigol a chyda goroeswyr. Fodd bynnag, gellir cryfhau'r strwythurau arweinyddiaeth a llywodraethu ymhellach i sicrhau bod camau gweithredu'n cael eu cydgysylltu a'u cyfarwyddo fel ein bod gyda'n gilydd yn cynnig mwy na chyfanswm ein rhannau.

Mae hefyd yn strategaeth ar gyfer y gymdeithas ehangach i wneud newidiadau i normau, ymddygiadau a diwylliannau. Nid wyf am dynnu oddi ar y gwaith rhagorol sydd wedi'i wneud i gefnogi goroeswyr, ond mae angen inni gyflawni mwy wrth fynd i'r afael â drwgweithredwyr.

Rhan allweddol o'r dull Glasbrint newydd ar gyfer rhoi'r strategaeth ar waith yw'r Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol sy'n dod â phartneriaid ynghyd sy'n gweithio ym meysydd datganoledig a'r rhai nad ydynt yn gweithio ym meysydd datganoledig, gan gynnwys y Comisiynydd Pobl Hŷn. Rwy'n cyd-gadeirio'r bwrdd hwn gyda'r Dafydd Llywelyn, y Prif Gomisiynydd Heddlu a Throseddu ar y mater hwn ar gyfer y pedwar heddlu yng Nghymru. Bydd y Bwrdd yn sicrhau bod lleisiau grŵp amrywiol o oroeswyr yn cael eu clywed er mwyn cyd-gynhyrchu ein datrysiadau a monitro ein cynnydd.

Bydd gwaith ar gyflawni'r Strategaeth yn cael ei alinio ag ymrwymiadau ein Rhaglen Lywodraethu a bydd yn strategaeth i bawb yng Nghymru y mae trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol wedi effeithio ar eu bywydau – beth bynnag fo'u hoedran. Rydym wedi gwrando ar yr adborth hynod werthfawr o'n hymgynghoriad ar Strategaeth ddrafft ac wedi cydnabod y pryderon am bobl hŷn sy'n wynebu trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Mewn ymateb i'r adborth hwn ac yn dilyn trafodaeth bellach yn y Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol ar 23 Mai, rydym wedi cytuno i gael ffrwd waith benodol a fydd yn canolbwyntio'n benodol ar anghenion pobl hŷn mewn perthynas â'r materion hyn.

Yn ogystal â'r ffrwd waith ar gyfer pobl hŷn, bydd gennym ffrydiau gwaith ar gyfer aflonyddu ar y stryd a diogelwch mewn mannau cyhoeddus; aflonyddu yn y gweithle; mynd i'r afael â chyflawni trais; comisiynu cynaliadwy; ac

anghenion plant a phobl ifanc. Y ffrydiau gwaith fydd yn gyfrifol am ddatblygu cynlluniau gwaith manwl ar gyfer gweithredu'r Strategaeth.

Bydd lleisiau goroeswyr o wahanol gymunedau a chefndiroedd yn hollbwysig ac yn rhan annatod o ddatblygu ein strategaeth mewn ffordd a all weithio yn y byd go iawn. Bydd gwrando ar y lleisiau amrywiol hynny hefyd yn ein helpu i ddod o hyd i atebion sy'n adeiladu ar gryfderau goroeswyr.

Mae hon yn strategaeth drawslywodraethol gydag ymgysylltu a chefnogaeth gan gydweithwyr gweinidogol ym meysydd addysg, iechyd, tai, llywodraeth leol, a'r economi.

Mae angen i ni weithio gyda'n gilydd er lles y rhai sy'n agored i drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Rwy'n credu'n gryf bod gan y Strategaeth hon y posibilrwydd o fod yn gam pwysig ymlaen yn ein huchelgais i roi terfyn ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a sicrhau mai Cymru yw'r lle mwyaf diogel i fenywod a merched fyw ynddo, lle mae gan bob un yr hawl i 'fyw heb ofn'.

<u>Cwestiynau a thrafodaeth</u>

Steve Milsom – Yn galonogol gweld i ba raddau rydych wedi ystyried pobl hŷn yn y gwaith hwn – gan weithio gyda Chynghrair Pobl Hŷn Cymru a'r Comisiynydd Pobl Hŷn – mor falch eu bod ar y tasglu. Mae'r Comisiynydd Pobl Hŷn eisoes wedi gwneud rhywfaint o ymchwil ar drais yn erbyn dynion hŷn.

Gweinidog - Rydych yn gwneud pwyntiau pwysig. Cefais gyfarfodydd rheolaidd â'r Comisiynydd Pobl Hŷn, yn enwedig ar gam-drin domestig. Mae cydnabyddiaeth gynyddol o brofiadau dynion hŷn o gael eu cam-drin, ac mae'n bwysig inni ganolbwyntio arno o fewn y ffrwd waith gyffredinol ar gyfer pobl hŷn. Cafodd y pandemig gymaint o effaith ar berthnasoedd.

Heather Ferguson - Mae'r argyfwng costau byw yn cynyddu pwysau, sy'n gallu arwain at gam-drin domestig.

Gweinidog – Mae'r argyfwng costau byw yn cael effaith enfawr ar fywydau pobl hŷn – mae angen inni edrych drwy'r lens costau byw. Rwy'n annog pawb i hyrwyddo ymgyrch 'Hawliwch yr hyn sy'n ddyledus i chi' – mae credyd pensiwn wedi'i dan-hawlio'n fawr. Mae cymorth ar gael gan Lywodraeth Cymru – fel Cynllun Cymorth Tanwydd y Gaeaf. (Cadarnhaodd y Gweinidog yn ddiweddarach y bydd y cynllun yn cael ei ymestyn i'r rhai sy'n hawlio credyd pensiwn).

Andrea Cooper – Gwnaethom gyhoeddi ystadegau ar gam-drin dynion hŷn ym mis Gorffennaf.

Paul Webb – Mae angen i ni ganolbwyntio ar wrywdod gwenwynig fel problem i'r gymdeithas gyfan, a'r angen i newid diwylliant. Gall y gweithgor pobl hŷn ganolbwyntio ar ddynion sy'n ddioddefwyr hŷn. Gall y gweithgorau amrywiol dynnu at ei gilydd yn yr haf ac adrodd yn ôl ym mis Medi neu fis Hydref.

'Paid â Dechrau: Pobl hŷn yn trafod eu hawliau' – Heather Ferguson, Age Cymru (ar ran Rachel Dawson, Swyddog Prosiect Hawliau Dynol, Age Cymru).

Dangosodd Heather ffilm fer wedi'i hanimeiddio gan Age Cymru, a rhoi crynodeb o'r camau a gymerwyd yn ystod y prosiect chwe mis hwn, a ddarparwyd mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru. Gellir gweld y ffilm yn: Prosiect hawliau dynol ¦ Age Cymru (ageuk.org.uk)

Mike Hedges – mae rhai meddygfeydd yn dda iawn, ond mae'n anodd iawn cael mynediad at eraill.

Heather Ferguson – gan gyfeirio at y trydydd arolwg cenedlaethol o brofiadau pobl 50 oed neu'n hŷn yng Nghymru o bandemig COVID-19, a gynhaliwyd rhwng Chwefror ac Ebrill gan Age Cymru mewn partneriaeth â sefydliadau cenedlaethol pobl hŷn - mynediad at ofal iechyd a meddygon teulu oedd y mater y soniwyd amdano fwyaf. Mae pobl hŷn yn cael trafferth gyda'r strwythur, yn enwedig o ran mynediad digidol, systemau brysbennu dros y ffôn, a gofalwyr yn ceisio trefnu apwyntiadau ar gyfer y bobl maent yn gofalu amdanynt. Bydd yr arolwg yn cael ei gyhoeddi yr wythnos nesaf.

Steve Milsom – Dyma ddarn gwych o waith i godi ymwybyddiaeth o hawliau pobl hŷn. Rydw i hefyd yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Prifysgol Abertawe i gynnal ymchwil ar hawliau dynol.

Camau gweithredu

Bydd Heather Ferguson yn cael ei gwahodd i gyfarfod o'r Grŵp yn y dyfodol i siarad am ganlyniadau'r trydydd arolwg cenedlaethol ynghylch COVID-19.

Unrhyw Fater Arall

Nododd Ceri fod gwybodaeth wedi'i hanfon at y Grŵp am brosiect HARP (Iechyd, Celfyddydau, Ymchwil, Pobl), sef prosiect ymchwil ac arloesi aml-bartner sydd wedi bod yn archwilio sut y gall y celfyddydau chwarae rhan flaenllaw wrth greu 'Cymru Iachach'. Ymhlith y partneriaid mae Cyngor Celfyddydau Cymru, Nesta, Y Lab ym Mhrifysgol Caerdydd,  Conffederasiwn GIG Cymru a Rhwydwaith Iechyd a Llesiant Celfyddydau Cymru. Bydd y wybodaeth yn cael ei dosbarthu gyda'r Cofnodion.

Dyddiad y cyfarfod nesaf

Cynhelir cyfarfod nesaf y Grŵp Trawsbleidiol yn yr hydref; manylion pellach i ddilyn maes o law.

Diwedd y cyfarfod